

CÂN Y GWYNT



Malgosia Bartosik . Philippa Nuttall Jones . Zam Zadeh



Bydd 2019 yn cael ei chofio fel y flwyddyn lle newidiodd rhywbeth, pan aeth plant ar streic a mynnu bod oedolion yn gweithredu i stopio newid hinsawdd.

Daeth yr ysbrydoliaeth am y llyfr yma yn dilyn sgwrs rhwng dwy fam (un yn eiriolwr dros ynni gwynt o wlad Pwyl a'r llall yn newyddiadurwr Prydeinig) ac artist ifanc talentog o Iran. Mae'r llyfr yn amlinellu sut y bydd ffynonellau ynni adnewyddadwy fel gwynt yn arwain y ffordd at fyd glanach, iachach i bawb.



Yn 2019 aeth plant o bob rhan o'r byd ar streic. Dim achos doedden nhw ddim yn hoffi eu hathrawon ond i ddweud wrth yr oedolion oedd yn rheoli fod angen iddyn nhw wneud rhywbeth i stopio newid hinsawdd. Fe wnaethon nhw aros draw o'r ysgol i ofyn am reolau a chyfreithiau i amddiffyn y ddaear a rhoi dyfodol glân iddyn nhw.



Ond beth yn union yw newid hinsawdd a pam fod ei stopio mor bwysig? I ateb y cwestiwn
yma, mae angen i ni edrych yn ôl ar hanes.....
200 mlynedd yn ôl roedd y rhan fwyaf o bobl yn byw yn y wlad.



Adeiladwyd ffatrioedd
a symudodd pobl
i weithio
mewn dinasoedd.

Roedd angen llawer iawn o ynni i bweru'r
holl ffatrioedd yma ac yn nes ymlaen ar
gyfer tai, ceir ac awyrennau.

Mae defnyddio peiriannau i wneud gwaith yn lle pobl yn gweithio ar y tir gyda llaw fel arfer yn golygu....


Mwy o swyddi.



Mae pobl yn ennill mwy o arian ac yn gallu prynu mwy o fwyd a byw bywydau hirach a iachach.



Ac mae ceir ac awyrennau yn gwneud teithio o le i le yn haws.




Ond llosgi tanwyddau ffosil fel olew, glo a nwy sy'n gwneud y rhan fwyaf o hyn yn bosibl. Mae'r rhain yn dod o ffosiliau, anifeiliaid a phlanhigion marw wedi eu gwasgu yn y ddaear dros gannoedd ar filoedd o flynyddoedd.


Pan maen nhw'n cael eu llosgi mae tanwyddau ffosil yn creu nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid*.

Nwy tŷ gwydr arall yw methan* sy'n dod o ffermydd mawr lle mae llawer o anifeiliaid, yn enwedig gwartheg, yn torri gwynt!

*carbon deuocsid CO_2
*methan CH_4



Gyda'i gilydd mae'r nwyon yma fel blanced anweledig o amgylch
y byd sy'n cadw gwres yr haul i mewn, fel tŷ gwydr.
Mae hyn fel arfer yn gwneud y byd yn lle braf i fyw.
Ond mae'r flanced wedi mynd yn rhy drwchus sy'n golygu fod
y byd yn rhy boeth ac mae hyn yn achosi newid hinsawdd.



Mae'r byd wedi cynhesu 1°C
ers i'r ffatrioedd cyntaf gael eu hadeiladu.

Falle bod hyn ddim yn swnio'n llawer ond
meddylwch am y ffordd rydych chi'n teimlo
pan mae gennych chi wres uchel, yn flinedig,
chwyslyd a sâl, dyna sut mae'r byd yn teimlo,
a dydy pethau ddim yn gweithio'n iawn.



Mae digwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd, tonnau gwres yn dod yn fwy a mwy cyffredin.
Mae anifeiliaid a phlanhigion yn dioddef a hyd yn oed yn diflannu'n llwyr wrth i'r llefydd maen
nhw'n byw ynddyn nhw newid a diflannu.



Ac mae pobl yn mynd yn sâl ac yn marw achos llygredd sydd wedi ei achosi gan ffatrioedd a cheir.



Fe allwn ni gyd wneud pethau i helpu.



Mae diffodd goleuadau yn arbed ynni ac yn creu llai o garbon deuocsid.



Mae cerdded, seiclo neu mynd ar y bus yn creu llai o lygredd na mynd yn y car neu ar awyren.

Mae bwyta llai o gig yn golygu bydd llai o methan.





Ond dydy hyn ddim yn ddigon,
llosgi tanwydd ffosil sy'n creu rhan
fwyaf o'r nwyon tŷ gwydr.

Mae angen i ni newid i ddefnyddio
ffynonellau egni glân fel yr haul a'r
gwynt yn lle llosgi tanwydd ffosil ac
mae angen gwneud hynny ar frys.



Mae pobl wedi bod yn defnyddio egni'r gwynt ers amser hir. Y ffordd gyntaf mae'n debyg oedd i hwylio cychod ar draws llynoedd a moroedd.



Cafodd y melinau gwynt cyntaf eu hadeiladu tua 2000 o flynyddoedd yn ôl a'u defnyddio i bwmpio dŵr neu i falu grawn i wneud blawd.




Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, creodd gwyddonwyr, gan gynnwys Poul la Cour, Meteorolegwr o Ddenmarc, y twrbeini cyntaf i gynhyrchu trydan.

Erbyn 1918 roedd dros 120 o dwrbeini gwynt yn cynhyrchu trydan yn Denmarc. Yn 1978 fe wnaeth peiriannwyr o Ddenmarc greu'r twrbeini gwynt gyda tri llafrn cyntaf yn y byd a'r rhain sydd wedi bod yn batrwm i'r rhai rydyn ni'n eu gweld heddiw.



Felly, sut mae turbin gwynt yn gweithio?



Doedd y twrbinau gwynt cyntaf
ddim yn llawer mwy na'r rhai
gafodd eu creu yn y bedwaredd
ganrif ar bymtheg.

Mae twrbeini heddiw yn dalach, yn well, yn
arafach ac yn gryfach a gallan nhw gael eu
rhoi ar dir neu yn y môr.

Gallai'r ynni sy'n cael ei greu gan un
troad o dwrbeini mwyaf pwerus
y byd bweru'ch cartref am
ddiwrnod cyfan.

Erbyn 2025, bydd llawer o
dwrbeini gwynt yn fwy na'r Tŵr
Eiffel ym Mharis (pob un yn pwysu
mwy na 100 eliffant!)



Mae dros 130,000 o dwrbeini gwynt eisoes yn helpu i gynhyrchu ynni i Ewrop. Gyda paneli solar, ceir trydan a newididadau yn y ffordd rydyn ni'n byw i arbed ynni a llygru llai, mae ynni gwynt yn creu dyfodol glanach a iachach i ni gyd.



Cefnogir gan :

Wind[•]
EUROPE

windeurope.org



www.letthewindblow.org

Cyfieithwyd gan:



Scan me 

TO SEE OTHER
LANGUAGES